Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Arolwg i nodi blaenoriaethau ymchwil o ran cyfathrebu ynglŷn ag iechyd menywod

Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru  yn gweithredu fel cangen gyflawni a brand allanol Is-adran Ymchwil a Datblygu Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd y boblogaeth. Gan gydweithio â thîm ymchwil iechyd Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn cynnal Ymarfer Blaenoriaethu Ymchwil sy'n canolbwyntio ar gyfathrebu ynglŷn ag iechyd menywod. Nod yr ymarfer hwn yw gweithio gyda menywod a merched ac ymarferwyr GIG Cymru er mwyn gwneud y canlynol:

- Nodi cwestiynau, heriau, problemau ac ansicrwydd allweddol ar draws pob agwedd ar iechyd o ran y cyfathrebu rhwng menywod a merched a'r gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n eu helpu;
- Blaenoriaethu'r 10 cwestiwn pwysicaf i ymchwil fynd i'r afael â nhw; a
- Bwydo'r blaenoriaethau hyn i ffrydiau cyllido.

Yn rhan o'r ymarfer hwn, bydd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn casglu gwybodaeth drwy ddau arolwg ar-lein: un wedi'i anelu at randdeiliaid perthnasol, a'r llall wedi'i anelu at fenywod a merched (dros 16 oed). Bydd yr arolygon yn gofyn amrywiaeth o gwestiynau er mwyn deall eich profiadau o ran cyfathrebu ynglŷn ag iechyd menywod a'r meysydd rydych chi'n credu sy'n bwysig i ymchwil fynd i'r afael â nhw.

Llywodraeth Cymru yw'r rheolydd data ar gyfer y prosiect. Ni fydd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn rhannu unrhyw ddata personol â thîm ymchwil iechyd Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, ac eithrio eich manylion cyswllt os byddwch wedi nodi eich bod yn hapus i gymryd rhan mewn gweithdai prosiect pellach.

Bydd yr wybodaeth a gesglir yn ystod y prosiect yn cael ei chynnwys mewn adroddiad a gyhoeddir ar wefan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ac o bosibl mewn cyhoeddiadau eraill gan Lywodraeth Cymru.

Mae cymryd rhan yn y prosiect hwn yn gwbl wirfoddol. Er hynny, mae eich barn a'ch profiadau yn bwysig er mwyn helpu i lywio cyllid ymchwil yn y dyfodol.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dyma fanylion cyswllt ar gyfer yr ymarfer ymgysylltu hwn: Jacqui Campbell

E-bost: ymchwil.iechydagwasanaethaucymdeithasol@llyw.cymru

## HYSBYSIAD PREIFATRWYDD

### Pa ddata personol a gedwir gennym ac o ble yr ydym yn cael yr wybodaeth hon?

Diffinnir data personol o dan Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU) fel unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â pherson adnabyddadwy y gellir ei adnabod, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, drwy gyfeirio at ffactor adnabod.

Rydych chi wedi cael yr arolwg drwy un o'r llwybrau canlynol:

- *E-bost Uniongyrchol*: Anfonwyd e-bost atoch yn uniongyrchol oherwydd bod gan Lywodraeth Cymru eich manylion cyswllt eisoes fel rhanddeiliad allweddol yn y maes hwn ac yn sgil eich diddordeb yn y pwnc.
- *Cyfryngau Cymdeithasol*: Gwnaethoch ymateb i alwad agored ar gyfryngau cymdeithasol Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.
- *Dolen a anfonwyd ymlaen:* Mae'n bosibl hefyd fod dolen i'r arolwg wedi'i hanfon atoch gan gydweithiwr yn eich sefydliad neu gan un o'ch cysylltiadau.

Mae cymryd rhan yn gwbl wirfoddol. Os nad ydych yn dymuno cymryd rhan na chael negeseuon atgoffa, rhowch wybod drwy ateb yr e-bost yn eich gwahodd a bydd eich manylion yn cael eu dileu.

Yn rhan o'r arolwg, nid yw'n ofynnol ichi rannu unrhyw ddata personol. Nid yw cwblhau'r arolwg yn nodi eich cyfeiriad e-bost na'ch cyfeiriad IP ac felly mae eich ymatebion yn ddienw. Os byddwch yn dewis rhannu data personol ychwanegol yn ystod y trafodaethau, byddwn yn ceisio sicrhau na ellir eich adnabod o'ch ymatebion, na chysylltu'ch enw â nhw.

Cyn anfon y data dienw at dîm ymchwil iechyd Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, bydd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn dileu unrhyw wybodaeth bersonol sydd wedi'i chynnwys yn yr ymatebion i'r arolwg. Yn ogystal, bydd y data dienw hwn yn cael ei anfon at Arbenigwr Gwybodaeth Blaenoriaethu Ymchwil annibynnol, sydd wedi'i gomisiynu i weithio ar dîm y prosiect. Bydd yr Arbenigwr hwn yn dadansoddi'r data dienw ochr yn ochr â staff o dîm ymchwil iechyd Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi.

Ar ddiwedd yr arolwg, byddwn hefyd yn gofyn ichi a hoffech chi barhau i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am y prosiect, gan gynnwys cymryd rhan mewn arolygon prosiect pellach, grwpiau trafod neu weithdai sy'n ymwneud â'r prosiect hwn. Er mwyn ichi gael yr wybodaeth ddiweddaraf, bydd angen ichi roi eich manylion cyswllt (enw a chyfeiriad e-bost). **Er mwyn sicrhau bod ymatebion yr arolwg yn ddienw,**

**ni fydd eich manylion cyswllt yn cael eu cynnwys yn eich ymateb i'r arolwg.** Dim ond at ddibenion rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi, neu eich cynnwys mewn ymchwil bellach yn rhan o'r prosiect hwn y bydd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a/neu dîm ymchwil iechyd Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi yn defnyddio eich enw a'ch cyfeiriad e-bost.

## Beth yw'r sail gyfreithiol dros ddefnyddio eich data?

Y sail gyfreithiol dros brosesu gwybodaeth yn yr ymarfer casglu data hwn yw cyflawni ein tasg gyhoeddus. Hynny yw, arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru.

Mae cymryd rhan yn gwbl wirfoddol. Mae prosiectau fel hyn yn bwysig i Lywodraeth Cymru gasglu gwybodaeth a fydd yn helpu i lunio blaenoriaethau ymchwil a chyllido ar draws gwahanol feysydd o ddiddordeb. Er enghraifft, bydd yr wybodaeth a gesglir yn y prosiect hwn yn cael ei defnyddio i sefydlu blaenoriaethau ymchwil ar gyfer Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, fel y gallant ariannu prosiectau ymchwil sy'n mynd i'r afael â phrofiadau bywyd go iawn pobl.

## Pa mor ddiogel yw eich data personol?

Mae gwybodaeth bersonol a roddir yn cael ei chadw ar weinydd diogel bob amser. Dim ond nifer cyfyngedig o ymchwilwyr sy'n gweithio ar y prosiect fydd yn cael gweld y data. Bydd eich manylion cyswllt ac unrhyw ddata personol y byddwch wedi dewis eu rhannu â ni yn cael eu cadw mewn ffolder, a dim ond tîm y prosiect sy'n gweithio arni fydd yn ei defnyddio.

Mae gan Lywodraeth Cymru weithdrefnau i ymdrin ag unrhyw achosion o dor diogelwch data a amheuir. Os amheuir achos o dor diogelwch data, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod ichi ac unrhyw reoleiddiwr perthnasol pan fo'n ofynnol yn ôl y gyfraith inni wneud hynny.

Bydd y tîm ymchwil yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir i lunio adroddiad a fydd yn cael ei chyhoeddi ar wefan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Ni fydd yr adroddiad hwn yn cynnwys unrhyw wybodaeth y gellid ei defnyddio i adnabod unrhyw gyfranogwyr unigol.

## Am ba hyd y byddwn yn cadw eich data personol?

Bydd Llywodraeth Cymru yn dileu unrhyw ddata personol na fydd eisoes wedi'i dynnu o ffolder y prosiect ymchwil o fewn tri mis i gyhoeddi'r adroddiad terfynol. Mae hyn yn cynnwys eich manylion cyswllt os gwnaethoch chi eu rhannu er mwyn cael yr

wybodaeth ddiweddaraf am y prosiect neu i gymryd rhan mewn ymchwil bellach yn rhan o'r prosiect hwn.

Pan fydd Llywodraeth Cymru yn cadw eich data oherwydd eich bod yn rhanddeiliad allweddol yn y maes hwn, bydd yn cael ei gadw yn unol â'r diben gwreiddiol.

## Hawliau unigolion

O dan GDPR y DU, mae gennych hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth bersonol yr ydych yn ei rhannu yn rhan o'r Ymarfer Blaenoriaethu Ymchwil hwn. Yn benodol, mae gennych yr hawliau a ganlyn:

- Yr hawl i gael gafael ar gopi o'ch data personol;
- Yr hawl i ofyn inni gywiro unrhyw beth sy'n anghywir yn y data hwnnw;
- Yr hawl i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data (o dan amgylchiadau penodol);
- Yr hawl i ofyn bod eich data yn cael ei 'ddileu' (o dan amgylchiadau penodol);
- Yr hawl i wneud cwyn a'i gyflwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF. Rhif ffôn: 0303 123 1113. Gwefan: www.ico.org.uk

## Rhagor o wybodaeth

Os oes gennych ragor o gwestiynau ynghylch sut y bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r data a ddarperir yn rhan o'r astudiaeth hon, neu os ydych yn dymuno arfer eich hawliau o dan Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data, cysylltwch â:

Jacqui Campbell (Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, Llywodraeth Cymru)

Rhif ffôn:  03000 622308

E-bost: Jacqui.Campbell001@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru:

Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ. E-bost: SwyddogDiogeluData@llyw.cymru.